# Archwilio Effaith

## Blaenoriaeth 3: Mynd i'r afael â thlodi data fel mater allweddol

## Rhagfyr 2024

# Canlyniadau meintiol o'r arolwg

- Cafwyd 42 o ymatebion i’r arolwg.
- Mae 83% o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn ymwybodol o atebion presennol i dlodi data, megis tariffau cymdeithasol a’r Banc Data Cenedlaethol.
- Dyw’r atebion presennol i dlodi data ddim yn ddigonol i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru, a dim ond 1 ymatebydd a gytunodd â’r datganiad hwn. Mae aelodau Rhwydwaith DIAW yn meddwl bod angen gwneud mwy.
- Mae mynediad at WiFi cyhoeddus am ddim yn amrywio, gyda’r rhan fwyaf o bobl yn dweud mai dim ond weithiau (48%) neu’n anaml (36%) y gallan nhw gael mynediad ato.
- Mae ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru i wneud y rhyngrwyd yn gyfleustod hanfodol. Yn ôl 76% o ymatebwyr, mae camau cynnar wedi'u cymryd neu mae gwaith sylfaen sylweddol wedi'i osod.
- Mae 86% yn cytuno bod Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwaith sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â thlodi data yng Nghymru.
- Dim ond 55% o ymatebwyr sy’n rhan o grŵp lle maen nhw’n trafod tlodi data.




Mae'r atebion sydd ar gael i dlodi data yn ddigonol i ddiwallu anghenion dinasyddion Cymru.
18
16
14
12
10
8
6
4
2
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod


Pa mor aml y gallwch chi gael mynediad at ddarpariaeth gyhoeddus am ddim o WiFi diogel a hawdd ei ddefnyddio yng Nghymru?
25
20
15
10
5
0
Bob amser
Yn aml
Weithiau
Anaml
Byth


Pa mor agos yw Cymru at gael mynediad at y rhyngrwyd wedi'i gydnabod fel cyfleustod hanfodol?
25
20
15
10
5
0
Bron yn gyflawn
Mae cryn dipyn o'r gwaith sylfaen wedi'i osod
Mae camau cynnar wedi'u cymryd
Does dim cynnydd wedi'i wneud
Ddim yn siŵr/ddim yn gwybod


Mae Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thlodi data yng Nghymru.
25
20
15
10
5
0
Cytuno'n gryf
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n gryf
Ddim yn gwybod

A ydych chi'n aelod o unrhyw fyrddau/partneriaethau/grwpiau lle rydych chi'n trafod atebion i dlodi data?



# Dadansoddi cynnwys dogfennau polisi a strategaeth

- Chwiliwyd dogfennau am y termau allweddol: cynhwysiant digidol, allgáu digidol, Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, cysylltedd (digidol), hygyrchedd (digidol), sgiliau (digidol) a thlodi/fforddiadwyedd (data/digidol).
- Comisiynwyd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol rhyngwladol. Nod yr adroddiad hwn yw dwyn ynghyd y swm sylweddol o dystiolaeth a gynhyrchwyd ar gyfer y prosiect i fframio a llywio trafodaethau Llywodraeth Cymru ar 'beth nesaf'. Mae hefyd yn ceisio dod i gasgliadau ar sut dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i geisio lleddfu tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru ar sail y rhyng-gysylltiadau a'r llinynnau cyffredin rhwng gwahanol fathau o dystiolaeth. Er nad yw'n ddogfen bolisi neu strategaeth, fe'i comisiynwyd i lywio polisi a strategaeth ac felly mae wedi'i chynnwys yma.
- Cafodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2019. Yn 2019, ychwanegwyd dangosydd ar gyfer mynediad digidol a gyfrifir fel cyfran y cartrefi a busnesau bach sydd ddim yn gallu derbyn band eang llinell sefydlog ar gyflymder cydamseru lawrlwytho o 30Mb/s neu uwch (band eang cyflym iawn). Mae hyn yn cynnwys eiddo heb wasanaeth band eang. Y ffynhonnell oedd Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd Ofcom ar gyfer Gwanwyn 2019. Ond dyw'r dangosydd hwn ddim o reidrwydd yn arwydd o dlodi, gan y gallai fod yn ddiffyg seilwaith.
- Gan nad oes unrhyw strategaethau tlodi trosfwaol na chynlluniau gweithredu ar gael, y dogfennau a ddefnyddir ar gyfer y DU, yr Alban a Chymru yw *Leveling Up*, *A Fairer Scotland* a *Cymru Can*. Mae'r rhain i gyd wedi'u cynllunio i osod gweledigaeth ar gyfer sut bydd pob gwlad yn gwella cydraddoldeb, yn atal neu'n mynd i'r afael â thlodi parhaus, ac yn gwneud y gwledydd hyn yn llefydd gwell i bawb fyw ynddyn nhw.

| | Cynhwysiant Digidol | Allgáu Digidol | Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru | Cysylltedd (Digidol) | Hygyrchedd (Digidol) | Sgiliau (Digidol) | Tlodi neu Fforddiadwyedd (Data/Digidol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*, Llywodraeth Cymru (2024) | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| *Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Ffordd ymlaen*, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2022) | 0 | 6 | 0 | 1 | 3 | 2 | 1 | 14 |
| *Cymru Can: Y strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023–2030* | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Levelling Up the United Kingdom*, Llywodraeth y DU (2022) | 0 | 0 | 0 | 13 | 1 | 11 | 0 | 25 |
| *Fairer Scotland Action Plan*, Llywodraeth yr Alban (2016) | 0 | 0 | 0 | 1 | 8 | 2 | 3 | 14 |

# Astudiaethau Achos

**David Jones, Arbenigwr Dysgu a Datblygu Digidol**
**Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy**

**1. Dywedwch yn gryno wrthon ni am eich prosiect/rhaglen?**
Mae gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy (MBS) dros 150 mlynedd o hanes ac mae'n mynd i'r afael â thlodi data trwy helpu ei demograffig hŷn yn bennaf i groesi i'r oes ddigidol. Gan gydnabod nad oes gan lawer o'i haelodau fynediad ar unwaith at dechnoleg, sgiliau digidol, a'r rhyngrwyd, mae'r sefydliad wedi gweithredu proses addasu araf i feithrin hyder a chymhwysedd mewn sgiliau digidol. Mae wedi sefydlu rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol yn ei changhennau sy'n cynnig gwiriadau digidol. Mae'r rhain yn cwmpasu diogelwch, diogeledd, cysylltedd rhyngrwyd, a sgiliau digidol sylfaenol. Mae'r Hyrwyddwyr yn gweithio ochr yn ochr â Chyfeillion Cyllideb sy'n cynnal gwiriadau ariannol. Mae'r dull ar lawr gwlad hwn yn sicrhau nad yw aelodau'n cael eu gorfodi i fabwysiadu sgiliau digidol ond yn cael eu cefnogi i ddeall manteision ac anghenraid offer digidol.

**2. Sut mae'r sefydliad yn gweithio tuag at ein canlyniadau?**
*a) Cydnabyddir bod mynediad at y rhyngrwyd yn gyfleustod hanfodol yng Nghymru, ac mae Ofcom yn parhau i gryfhau ei rôl fel rheoleiddiwr yn ei adroddiadau ac yn ei gymorth i gwsmeriaid, grwpiau a chymunedau sy'n agored i niwed.*
Mae MBS yn cydnabod y cysyniad o fynediad at y rhyngrwyd fel cyfleustod hanfodol. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwelliant parhaus mewn cyflymder y rhyngrwyd a seilwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i atal tlodi digidol.

*b) Hyrwyddir y cymorth sydd ar gael mewn modd cydgysylltiedig, megis tariffau cymdeithasol gostyngol ar gyfer data band eang a symudol a'r Banc Data Cenedlaethol.*
Mae'r sefydliad yn hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael trwy ei Hyrwyddwyr Digidol, sydd â gwybodaeth am dariffau cymdeithasol ac adnoddau eraill. Mae'n cydweithio â phartneriaid yn y trydydd sector a chymdeithasau tai i gyfeirio aelodau at raglenni sefydledig a all eu helpu i ddod yn gysylltiedig. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw ac yn gallu cael mynediad ato.

*c) Darperir WiFi diogel a hawdd ei ddefnyddio am ddim i'r cyhoedd, a chymorth cymunedol ar gyfer cynhwysiant digidol ar draws pob rhan o Gymru.*
Er nad yw'r sefydliad ei hun yn cynnig WiFi cyhoeddus, mae'n cefnogi mentrau sy'n anelu at greu parthau WiFi am ddim mewn cymunedau lleol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd WiFi cyhoeddus diogel a hawdd ei ddefnyddio.

*d) Mae cydweithio traws-sector yn parhau i ymchwilio a dylunio atebion cynaliadwy hirdymor i dlodi data, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru.*
Mae MBS yn cymryd rhan mewn cydweithio traws-sector trwy weithio gyda phartneriaid lleol a chymdeithasau tai. Mae'n cymryd rhan mewn mentrau fel Tech for Good Cymru ac yn cynnal cyfarfodydd i gefnogi ymdrechion i sicrhau cynhwysiant digidol i gymunedau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i ddylunio a gweithredu atebion cynaliadwy i dlodi data.

*e) Dylai fod mynediad am ddim a chyfartal at wasanaethau cyhoeddus i bawb yng Nghymru. Dylid gwneud gwaith i ganiatáu i’r gyfradd sero bresennol ar rai gwefannau sector cyhoeddus gael ei hymestyn i holl wefannau ac apiau gwasanaeth cyhoeddus digidol a dylid eu dylunio i leihau’r defnydd o ddata gymaint â phosibl.*
Mae’r sefydliad yn cefnogi’r cysyniad o gael cyfradd sero ar gyfer gwefannau ac apiau gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod pob preswylydd yn gallu cael mynediad at wasanaethau hanfodol heb fynd i gostau data. Mae’n cefnogi ymestyn y cysyniad o gyfradd sero i bob gwefan ac ap gwasanaeth cyhoeddus digidol, gan gydnabod pwysigrwydd lleihau’r defnydd o ddata ar gyfer poblogaethau sy’n agored i niwed.

**3. Sut wnaeth bod yn rhan o’r DIAW helpu’r prosiect penodol hwn (rhowch enghreifftiau os yn bosibl)?**
Mae bod yn aelod o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW) wedi rhoi cysylltiadau a dealltwriaeth werthfawr i MBS. Mae'r Gynghrair wedi ei helpu i ddeall yr anghenion a'r heriau penodol a wynebir gan ei haelodau ac wedi hwyluso partneriaethau gyda sefydliadau lleol. Er enghraifft, mae ei chydweithrediad â chymdeithasau tai a chymryd rhan yn Tech for Good Cymru wedi bod yn allweddol wrth gefnogi ei hymdrechion tuag at gynhwysiant digidol. Mae’r DIAW hefyd wedi cynnig llwyfan i rannu arferion gorau a dysgu o brofiadau aelodau eraill. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig wrth lunio ei dull o fynd i’r afael â thlodi data.

**Sophia Koopman, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes**
**Netomnia**

**1. Dywedwch yn gryno wrthon ni am eich prosiect/rhaglen?**
Netomnia yw pedwerydd gweithredwr rhwydwaith ffibr llawn mwyaf y DU ac rydyn ni'n cyflwyno seilwaith ffibr newydd sbon mewn sawl tref a dinas yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, y Barri, Wrecsam, Castell-nedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Llanelli, Treforys a Hengoed. Mae rhwydwaith Netomnia yn cynnig cyflymderau o hyd at 8,000Mpbs, gyda chyflymder lawrlwytho ac uwchlwytho cymesur. Mae dibynadwyedd y seilwaith hwn yn grymuso trigolion a busnesau i arloesi, cydweithio, ac aros ar y blaen mewn byd digidol sy'n datblygu'n gyflym. Mae ein buddsoddiad yn y lleoliadau hyn yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i adeiladu'r genhedlaeth nesaf o gysylltedd cadarn a fydd yn cefnogi esblygiad digidol y gymuned am ddegawdau i ddod.

Er mwyn mynd i'r afael â thlodi data yn benodol, mae Darparwyr Gwasanaethau Gwe (ISPs) Netomnia, fel YouFibre, yn cynnig pecynnau hyblyg fel contractau 'talu wrth fynd' a thariffau cymdeithasol, gan gynnwys tariff economi o £15 ar gyfer cyflymder uwchlwytho a lawrlwytho o 50Mbps.

Mae ein rhaglen yng Nghymru yn pwysleisio hygyrchedd drwy weithio gyda landlordiaid cymdeithasol Cymru i ddod â chysylltedd ffibr i flociau o fflatiau. Bydd hyn yn sicrhau bod gan breswylwyr ddewis o ddarparwyr ac opsiynau fforddiadwy.

**2. Sut mae Netomnia yn gweithio tuag at ein canlyniadau?**
*a) Cydnabyddir bod mynediad at y rhyngrwyd yn gyfleustod hanfodol yng Nghymru, ac mae Ofcom yn parhau i gryfhau ei rôl fel rheoleiddiwr yn ei adroddiadau ac yn ei gymorth i gwsmeriaid, grwpiau a chymunedau sy'n agored i niwed.*
Mae Netomnia yn cydnabod y cysyniad o fynediad at y rhyngrwyd fel cyfleustod hanfodol, ochr yn ochr ag ynni, dŵr a nwy. Mae mynediad at y rhyngrwyd mewn oes ddigidol yn hanfodol i allu llawer o bobl i gael mynediad at wasanaethau iechyd, addysg, incwm a gwaith.

Mae darparu ein rhwydwaith yn sicrhau y bydd miliynau o bobl ledled y DU yn cael mynediad at wasanaeth cyflym a dibynadwy, gan gefnogi polisi Prosiect Gigabit y Llywodraeth ac uwchraddio gwasanaethau ffôn yn ddigidol.

Erbyn 31 Ionawr 2027, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau symud y rhan fwyaf o linellau ffôn analog i linellau ffôn digidol. Mae angen pŵer o gysylltedd band eang ar linellau ffôn digidol i weithredu. Bydd toriad pŵer yn analluogi'r ffonau hyn oni bai bod Uned Batri Wrth Gefn (BBU) yn ei lle. Bydd defnyddwyr agored i niwed neu'r rhai sy'n dibynnu'n helaeth ar eu llinell dir yn gallu cael BBU am ddim wrth gontractio gwasanaeth newydd neu gan ddarparwr presennol neu fanwerthwyr eraill.

*b) Hyrwyddir y cymorth sydd ar gael mewn modd cydgysylltiedig, megis tariffau cymdeithasol gostyngol ar gyfer data band eang a symudol a'r Banc Data Cenedlaethol.*

Mae partneriaid Netomnia yn hyrwyddo tariffau cymdeithasol trwy gyfathrebu'n uniongyrchol â phreswylwyr. Rydyn ni'n argymell cydweithio â landlordiaid cymdeithasol yn ystod trafodaethau fforddfraint i amlygu'r elfen addysgol o opsiynau fforddiadwyedd i breswylwyr mewn angen. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar dariffau gostyngol.

*c) Darperir WiFi diogel a hawdd ei ddefnyddio am ddim i'r cyhoedd, a chymorth cymunedol ar gyfer cynhwysiant digidol ar draws pob rhan o Gymru.*
Mae'n bwysig i drigolion gael mynediad at y rhyngrwyd mewn amgylchedd diogel a chefnogol fel lolfa gymunedol mewn bloc o fflatiau neu ofod cyhoeddus (ysgolion, llyfrgelloedd meddygon teulu, canolfannau cymunedol) sy'n rhan o raglen Prosiect Gigabit GigaHubs.

*d) Mae cydweithio traws-sector yn parhau i ymchwilio a dylunio atebion cynaliadwy hirdymor i dlodi data, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru.*
Mae Netomnia yn cymryd rhan mewn cydweithio traws-sector trwy weithio gyda rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys landlordiaid, cynghorau, a sefydliadau cymunedol. Mae llawer o opsiynau ar gael yng Nghymru i ddarparu mynediad am ddim at y rhyngrwyd neu â chymhorthdal i breswylwyr neu denantiaid, yn ogystal â phartneriaethau cyhoeddus preifat i gynnig dyfeisiau a hyfforddiant sgiliau digidol.

*e) Dylai fod mynediad am ddim a chyfartal at wasanaethau cyhoeddus i bawb yng Nghymru. Dylid gwneud gwaith i ganiatáu i'r gyfradd sero bresennol ar rai gwefannau sector cyhoeddus gael ei hymestyn i holl wefannau ac apiau gwasanaeth cyhoeddus digidol a dylid eu dylunio i leihau'r defnydd o ddata gymaint â phosibl.*
Mae Netomnia yn cefnogi'r cysyniad o gael cyfradd sero ar gyfer gwefannau gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod pob preswylydd yn gallu cael mynediad at wasanaethau hanfodol heb fynd i gostau data. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd lleihau'r defnydd o ddata ar gyfer poblogaethau sy'n agored i niwed.

**3. Sut wnaeth bod yn rhan o'r DIAW helpu'r prosiect penodol hwn (rhowch enghreifftiau os yn bosibl)?**
Mae bod yn aelod o Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW) wedi rhoi presenoldeb a dealltwriaeth leol werthfawr i Netomnia. Mae'r Gynghrair wedi ein helpu i ddeall yr anghenion a'r heriau penodol a wynebir gan gymunedau yng Nghymru. Yn ogystal, mae cydweithio â DIAW wedi hwyluso cysylltiadau â rhanddeiliaid eraill ac wedi cefnogi'r gwaith o weithredu mentrau cynhwysiant digidol a arweinir gan y gymuned.

Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru
Digital Inclusion Alliance Wales

# Diolch am ddarllen.

**Cysylltwch â: diaw@cwmpas.coop**

**Dilynwch ni: @DIAWales**

cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being